# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar y 10fed o Ebrill 2024 yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:**

Y Cynghorwyr Hywel Lloyd (Cadair), Ruby Williams, Jocelyn Andrew, Gerallt Davies a Wyn Jones.

**Hefyd yn bresennol:**

Ein Cynghorwr Sirol Marc Davies a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau:**

Cynghorwyr Wyn Evans, Garym Roberts, Eiddwen Merritt a Carys Morgan.

**Datgelu buddiannau:**

Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:**

Darllenwyd cofnodion Mis Mawrth a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:**

Soniodd ein Cynghorydd Jocelyn Andrew fod y gwter yn Nerwen Gam ddim yn iawn o hyd a dywedodd ein Cynhorydd Sirol ei fod yn mynd i gysylltu a'r Cyngor Sir i ofyn iddynt ail edrych arno.

**Mater cynllunio:**
Dim.

**Aelodaeth Un Llais Cymru:**
Paswyd i dalu'r aelodaeth o £211.00.

**Anfoneb Cyfrifwyr Aeron:**
Derbynwyd anfoneb o £144.00.

**Yswiriant Zurich:**
Roedd y premiwm yr un peth a llynedd, sef £241.00 a penderfynwyd ei dalu.

**Unrhyw fater arall:**
Soniodd y Cynghorydd Ruby Williams fod yna dyllau eithaf dwfn yn y ffordd ar bwys y Foundry a gofynnwyd i'r clerc gysylltu a'r Cyngor Sir i dynnu eu sylw ar y mater.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30.

Fe fydd y cyfarfod nesaf ar Nos Fercher y 8fed o Fai 2024.